EXPLORE,
DISCOVER,
LEARN,
CONNECT.

Vale Libraries
Vale of Glamorgan Council

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Invitation to join Barry Library

We would be delighted to welcome you to **Barry Library**—a vibrant, friendly space at the heart of our town and everyone who lives, works and studies in the Vale is welcome to join. Whether you're creative, community minded, curious, or simply enjoy meeting others, our library is a place to relax, explore, learn, and connect.

**Why Join Barry Library?**
**Membership is free, simple, and opens the door to an inspiring range of books, services, and community activities. We offer:**

### Books & Reading for Every Interest

- Fiction & nonfiction for every taste
- Art books, craft guides, local history, biographies
- Largeprint, easyread & audiobooks
- Free online access to Newspapers, magazines, eBooks and eAudio-book

### Digital & Learning Resources

- Free computer use & internet
- Free WiFi
- Free access to Online Resources e.g. the OED, Theory Test Pro and Ancestry
- Spaces for study, sketching, or group meetups

### A Welcoming Community Space

- A warm place to read, relax, meet, socialise
- Friendly staff always happy to help
- Events, clubs, and activities for adults and children

### Practical Support

- Help accessing local services
- Printing & photocopying (small fee)
- Welsh language resources & local information

YMGOLLI. GO ALL IN.
Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2026
National Year of Reading 2026

### National Year of Reading 2026 "Go All In – If you're into it, read into it"




This year, the UK is celebrating the **National Year of Reading 2026**. We all know that reading opens up new worlds, sharpens minds and sparks creativity —but many of us struggle to make time for it. Barry Library is here to help you (re)discover the pleasure of reading and explore how it can deepen your connection to the things you already love, whether that's music, sport, the arts, family time, hobbies, or lifelong learning

## Benefits for Families, Children & Young People

Barry Library is also a wonderful hub for families and younger readers. We offer:

- A wide range of books to spark imagination and learning
- Storytimes, Rhyme and Sign Sessions, craft sessions and family friendly events
- Safe spaces for homework and study
- Free access to reading materials that support literacy and confidence
- A relaxed, welcoming space to read together.

***'Shared reading has a powerful impact on children's language development, confidence, and wellbeing—something strongly championed within the National Year of Reading'. [ukla.org]***

## Makerspace Facilities

Explore creativity and technology with Vale Libraries' Makerspace equipment, including:
- 3D printers
- Cricut cutting machines
- Laser cutting and engraving
- Electronics and coding kits
- Digital design tools

Perfect for creative projects, STEM learning, and hands-on exploration.

## Read to the Beat - Summer Reading Challenge

The Summer Reading Challenge **Read to the Beat** starts **4 July**, bringing music, stories and summer reading fun to libraries.

**Connect with us!**
Follow **Barry Library** on **Instagram** and **Facebook** to discover upcoming events, activities, library highlights and community news.



# We'd Love to Welcome You!

## Scan the QR code to join online

Membership is free and easy.
Register online for immediate access to:

- eBooks & eAudiobooks
- Newspapers & magazines
- Online learning resources

Bring ID showing your name and address when you visit to activate your full membership.

Available at:
Barry • Penarth • Cowbridge • Llantwit Major

www.valeofglamorgan.gov.uk/libraries

## School Visits & Group Tours

Schools and groups are very welcome.
To arrange a visit or library tour contact:

**Katherine Owen**
Senior Librarian – Barry
e. barrylibrary@valeofglamorgan.gov.uk

**ARCHWILIO,**
**DARGANFOD,**
**DYSGU,**
**CYSYLLTU.**

Llyfrgelloedd Y Fro
Cyngor Bro Morgannwg

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Gwahoddiad i Lyfrgell y Barri

Byddem yn falch iawn o'ch croesawu i Lyfrgell y Barri—man bywiog, cyfeillgar yng nghanol ein tref, ac mae croeso yma i bawb sy'n byw, gweithio ac astudio yn y Fro. Boed yn berson creadigol, yn berson sydd â diddordeb yn y gymuned, yn chwilfrydig, neu ond yn mwynhau cwrdd ag eraill, mae'r llyfrgell yn lle i ymlacio, archwilio, dysgu, a chysylltu.

**Pam ymuno â Llyfrgell y Barri?**
**Gallwch ymaelodi am ddim ac yn hawdd, gan agor y drws i amrywiaeth hynod o lyfrau, gwasanaethau, a gweithgareddau cymunedol.**
**Rydyn ni'n cynnig:**

### Llyfrau a Darllen at Ddant Pawb

- Ffuglen a ffeithiol at bob chwaeth mewn print ac ar-lein
- Llyfrau celf, canllawiau crefft, hanes lleol a bywgraffiadau
- Print bras, hawdd eu darllen a llyfrau sain
- Mynediad ar-lein am ddim i bapurau newydd, cylchgronau, eLyfrau ac eLyfrau Sain

### Adnoddau Digidol a Dysgu

- Defnyddio cyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd am ddim
- WiFi am ddim
- Mynediad am ddim i Adnoddau Ar-lein e.e. yr OED, Theory Test Pro ac Ancestry
- Mannau ar gyfer astudio, braslunio, neu gyfarfod

### Gofod Cymunedol Croesawgar

- Lle cynnes i ddarllen, ymlacio, cwrdd a chymdeithasu
- Staff cyfeillgar bob amser yn barod i helpu
- Digwyddiadau, clybiau a gweithgareddau i oedolion a phlant

### Cymorth Ymarferol

- Help i gael mynediad at wasanaethau lleol
- Argraffu & llungopïo (ffi fach)
- Adnoddau Cymraeg a Gwybodaeth Leol

YMGOLLI. GO ALL IN.
Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2026
National Year of Reading 2026

## Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2026 "Amdani – Os ti'n diddori, dos i bori"




Eleni, mae'r DU yn dathlu'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol 2026. Mae darllen yn agor bydoedd newydd i ni, yn hogi meddyliau ac yn sbarduno creadigrwydd - ond mae llawer ohonom yn ei chael hi'n anodd neilltuo amser iddo. Mae Llyfrgell y Barri yma i'ch helpu i (ail)ddarganfod pleser darllen ac archwilio sut y gall ddyfnhau eich cysylltiad â'r pethau rydych chi'n eu caru - yn gerddoriaeth, chwaraeon, celf, gweithgareddau i'r teulu, hobïau, neu ddysgu gydol oes

### Er budd Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc

Mae Llyfrgell y Barri hefyd yn ganolfan wych i deuluoedd a darllenwyr iau. Rydyn ni'n cynnig:

• Amrywiaeth eang o lyfrau i sbarduno'r dychymyg a dysgu
• Amseroedd Stori, Sesiynau Rhigwm ac Arwyddo, sesiynau crefft a digwyddiadau addas i deuluoedd
• Mannau diogel ar gyfer gwneud gwaith cartref ac astudio
• Mynediad am ddim at ddeunyddiau darllen sy'n cefnogi llythrennedd a hyder
• Gofod hamddenol, croesawgar i gyd-ddarllen

***'Mae cyd-ddarllen yn cael effaith bwerus ar ddatblygiad iaith, hyder a lles plant - rhywbeth sy'n cael ei hyrwyddo'n gryf yn y Flwyddyn Darllen Genedlaethol'. [ukla.org]***

### Cyfleusterau Lle Creu

Archwiliwch greadigrwydd a thechnoleg gydag offer Makerspace Llyfrgelloedd y Fro, gan gynnwys:

• Argraffwyr 3D
• Peiriannau torri Cricut
• Torri a llosgi laser
• Pecynnau electroneg a chodio
• Offer dylunio digidol

Perffaith ar gyfer prosiectau creadigol, dysgu STEM, ac archwilio ymarferol.

### Read to the Beat - Sialens Ddarllen yr Haf

Mae Her Ddarllen yr Haf Darllen i'r Curiad yn dechrau ar 4 Gorffennaf, gan ddod â cherddoriaeth, straeon a hwyl darllen haf i lyfrgelloedd.

**Cysylltwch â ni!**

Dilynwch **Lyfrgell y Barri** ar **Instagram** a **Facebook** i ddarganfod digwyddiadau, gweithgareddau, uchafbwyntiau'r llyfrgell a newyddion cymunedol sydd ar ddod.



## Byddem wrth ein bodd yn eich croesawu chi!

### Sganiwch y cod QR i ymuno ar-lein

Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim ac yn hawdd. Cofrestrwch ar-lein i gael mynediad uniongyrchol i:

• eLyfrau ac eLyfrau Sain
• Papurau newydd a chylchgronau
• Adnoddau dysgu ar-lein

Dewch â dogfen adnabod sy'n dangos eich enw a'ch cyfeiriad pan fyddwch chi'n ymweld i actifadu eich aelodaeth lawn.
Ar gael yn:
Y Barri • Penarth • Y Bont-faen • Llanilltud Fawr

www.bromorgannwg.gov.uk/llyfrgelloedd

### Ymweliadau Ysgol a Theithiau Grŵp

Mae croeso cynnes i ysgolion a grwpiau.
I drefnu ymweliad neu daith o amgylch y llyfrgell cysylltwch â:
**Katherine Owen**
Uwch Lyfrgellydd, Y Barri
e. barrylibrary@valeofglamorgan.gov.uk